# WILKS, JOHN (1764 neu 1765 - 1854), cyfreithiwr yn Llundain ac aelod seneddol

**Enw:** John Wilks
**Dyddiad geni:** 1764 neu 1765
**Dyddiad marw:** 1854
**Plentyn:** John Wilks
**Rhiant:** Matthew Wilks
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr yn Llundain ac aelod seneddol
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Yr unig reswm dros ei gynnwys yma yw mai ef oedd y cyfreithiwr a dynnodd weithred gyfansoddiadol y Methodistiaid Calfinaidd (1826), dan arolygiaeth John Elias a John Davies (1781 - 1848) o'r Fronheulog, Llandderfel ('y Pab o Fôn a'r Cardinal o Fronheulog,' chwedl Michael Roberts, Pwllheli), ac Elias Bassett o Forgannwg (gweler dan Bassett, Richard). Diamau i Wilks gael y gwaith nid yn unig am ei fod yn gefnogwr cymdeithasau crefyddol, ond hefyd am fod ei dad, Matthew Wilks, wedi bod yn un o gynghorwyr Whitefield yn y Tabernacl, ac yn un o gydweithwyr Thomas Charles yn y gwaith o ddarparu Beiblau.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography* (dan enw ei fab, 'Wilks, John, swindler')

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Mawrth 1923 (hanes y weithred)

W. Williams, *Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd* (1902) (ar John Davies)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804716


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu